



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Safbwyntiau datblygwyr am
Wasanaeth Cyngori ar Gynllunio
Datblygiad Cyfoeth Naturiol
Cymru
(2017-18)

Cynnwys

1. Cefndir	3
2. Canlyniadau'r arolwg	3
2.1 Y math o gyngor a geisiwyd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru.....	3
2.2 Bodlonwydd â chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.....	5
3. Arweiniad a swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.....	7
4. Bodlonwydd cyffredinol.....	8
5. Crynodeb o'r holl faterion a godwyd	9
6. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r materion a godwyd	10

1. Cefndir

Ym mis Hydref 2017, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru arolwg a oedd yn holi cwsmeriaid am eu safbwyntiau am Wasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Anfonwyd arolygon at staff awdurdodau cynllunio lleol, yn ogystal â datblygwyr ac aelodau'r cyhoedd a gysylltodd â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor am faterion cynllunio datblygu rhwng Gorffennaf 2016 a Gorffennaf 2017.

Nod yr arolygon hyn yw canfod i ba raddau mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn diwallu anghenion ei gwsmeriaid ac a oes unrhyw feysydd lle y gellid gwella gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'r arolwg a anelwyd at ddatblygwyr ac ymgeiswyr eraill. Mae'r canfyddiadau o arolygon awdurdodau lleol ar gael mewn adroddiad ar wahân.

Anfonwyd cyfanswm o 274 o arolygon at ddatblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd, a arweiniodd at bedwar ar bymtheg o arolygon yn cael eu cwblhau. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r ymatebwyr ynghylch agweddau gwahanol ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, ac a oedd wedi cael effaith ar eu cais terfynol.

Roedd canlyniad yr arolwg, yn fras, yn gadarnhaol, ond mae rhai meysydd wedi'u nodi lle gallai fod lle i wella. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Adran 6, gydag ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn Adran 7.

Gan fod cyfanswm yr atebion yn isel, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau'r arolwg hwn drwy'r holl ddogfen hon.


2. Canlyniadau'r arolwg

2.1 Y math o gyngor a geisiwyd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i'r ymatebwyr yn ymwneud â'r math o gyngor ar gais cynllunio a geisiwyd. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis nifer o opsiynau wrth ymateb i'r cwestiwn hwn.


Cysylltodd naw o'r ymatebwyr â Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chwestiwn yn ymwneud â datblygiadau mawr, nododd 12 arall eu bod wedi ceisio cyngor ar fathau eraill o ddatblygiad. Nid oedd yr un ymatebwr wedi ceisio cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol na Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Pa fath(au) o ddatblygiad rydych chi wedi ceisio cyngor oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei gyfer (eu cyfer)?



Nesaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa bwnc (neu bynciau) yr oeddent wedi ceisio cyngor mewn perthynas ag ef, a pha mor fodlon oeddent ar y gwasanaeth a gawsant. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis gwasanaethau amryfal ac mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi yn y graff isod. Gan fod nifer yr ymatebion mewn perthynas â'r rhan fwyaf o wasanaethau yn isel iawn, sylwch nad yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau cadarn am ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd.

Nodwch pa wasanaeth(au) y gwnaethoch chi ei ddefnyddio / eu defnyddio a pha mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth hwn




Mae'r graff yn dangos bod safbwynt yr ymatebwyr am y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn wedi'i hollti; yn ogystal ag ymatebion cadarnhaol, roedd rhai ymatebion negyddol i'r rhan fwyaf o gwestiynau. Yr unig wasanaethau a gafodd ymatebion negyddol cyson oedd cyngor ar ddatganiadau amgylcheddol a chyngor ar halogiad tir. Er hynny, oherwydd y nifer fach o ymatebion a gafwyd ynglŷn â'r gwasanaethau hyn (un a thri ymateb, yn ôl eu trefn), mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn am y gwasanaethau a ddarparwyd.

2.2 Bodlonrwydd â chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amlinellu sut mae'n bwriadu cyflawni ei wasanaeth yn "Cyngor Cynllunio Datblygu: Ein Datganiad Gwasanaeth ar gyfer Cyflawni", sy'n amlinellu nifer o safonau gwasanaeth.

Er mwyn deall yn well pa mor dda oedd perfformiad ein gwasanaeth yn erbyn y safonau gwasanaeth hyn, gwnaethom ofyn i ymatebwyr am eu safbwyntiau ynglŷn â nifer o ddatganiadau:

Nodwch pa wasanaeth(au) y gwnaethoch chi ei ddefnyddio / eu defnyddio a pha mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth hwn



Rhoddwyd sgôr rhwng 10 (cytuno'n gryf) a 2 (anghytuno'n gryf) i'r holl atebion a ddarparwyd. Ar ôl hyn, cyfrifwyd sgôr gyfartalog ar gyfer pob cwestiwn. Gellir dod o hyd i ganlyniadau'r ymarfer hwn yn y tabl isod.

Mae sgôr o 6, neu'n uwch, yn awgrymu bod mwy o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad nag yn anghytuno. Byddwn yn defnyddio'r holl ganfyddiadau o'r arolwg i lywio'r gwaith o ddatblygu ein gwasanaeth yn y dyfodol, ond byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar wella'r meysydd unigol hynny o'n gwasanaeth a gafodd sgôr yn is na 7.

Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd eu deall	7.6
Rhoddodd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o wybodaeth i mi er mwyn llywio'r gwaith o baratoi fy nghais cynllunio	7.2
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion, lle bo'n bosibl	6.6
Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am natur a graddfa'r asesiadau roedd eu hangen i gefnogi fy nghais cynllunio yn gymesur ag arwyddocâd effeithiau posibl y datblygiad a nodwyd	6.6
Lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi pryderon am ddatblygiad arfaethedig, mae ei gyngor am sut mae mynd i'r afael â'r problemau hyn yn gymesur	6.6
Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llywio newidiadau i'm cynllun*	6.6


Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi fy helpu i wella canlyniadau fy natblygiad ar gyfer amgylchedd Cymru.*	6.4
---	-----

Mae'r tabl uchod yn dangos bod ymatebwyr wedi'u bodloni mwyaf gan y cwestiynau mewn perthynas ag eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r sgôr yn erbyn yr holl ddatganiadau eraill yn fwy neu lai'r un peth.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu safbwyntiau am sut y gall cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei wella. Dim ond nifer fach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, ond i grynhoi, roedd rhywfaint o feirniadaeth am i ba raddau mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig atebion, yn ogystal â chanmoliaeth am y ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu.

3. Arweiniad a swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn dilyn y cwestiynau uchod, gofynnwyd dau gwestiwn i'r ymatebwyr ynglŷn ag a oeddent yn gwybod pryd y dylid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a beth oedd eu barn am yr arweiniad sydd ar ein gwefan ar hyn o bryd.



Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos, yn gyffredinol, bod ymwybyddiaeth am bryd y dylid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru yn uchel. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn cytuno bod arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall.


Mae'n amlwg i mi beth yw swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses cynllunio datblygu, a lle gallai fod yn ddefnyddiol i mi gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru	8.2
--	-----

Mae'r arweiniad a geir ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall	7.2
--	-----

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am awgrymiadau am sut y gallai arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei wella. Derbyniwyd un sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a oedd yn gofyn am arweiniad ychwanegol ar bwnc penodol.

4. Bodlonrwydd cyffredinol

Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio eu bodlonrwydd cyffredinol am y gwasanaeth a gawsant gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r graff isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n fodlon, neu rywfaint yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd. Dywedodd tua chwarter o'r ymatebwyr eu bod rhywfaint yn anfodlon, neu'n anfodlon ar y gwasanaeth.



Sut fydddech chi'n graddio eich bodlonrwydd cyffredinol ar y gwasanaeth a gawsoch gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?	7.6
--	-----

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu safbwyntiau am ba agweddau ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gweithio'n dda a pha rai y gellid eu gwella. Arweiniodd hyn at sawl ymateb. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion cadarnhaol yn canolbwyntio ar staff Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft:

“Unigolion a oedd yn fodlon siarad yn bersonol â mi, yn hytrach na dilyn dull ticio blwch...”

“Staff cyfeillgar a chydwybodol”

"Mae'r staff ar y lefel isaf yn gwneud gwaith arbennig o ystyried y diffyg adnoddau sydd ar gael iddynt"

Pan ofynnwyd iddynt ba agweddau ar y gwasanaeth y gellid eu gwella, roedd yr ymatebion yn amrywio mwy ac yn cynnwys y canlynol:

"Weithiau mae fy e-byst yn mynd ar goll yn y system ac ni chefais ateb. Pan gysylltais eto, ni roddwyd blaenoriaeth i'r ymateb."

"Ymatebion mwy cryno i geisiadau cynllunio gyda barn glir."

"Gallech fod yn bresennol yn ystod rhagor o gyfarfodydd safle, a allai helpu i osgoi'r angen i Asesiad Canlyniadau Llifogydd esbonio'r hyn sy'n amlwg mewn rhai achosion"

"Gallech hwyluso rhagor o gyswllt uniongyrchol â'ch staff rheng flaen yn lle gorfod dibynnu ar staff cymorth i rannu ceisiadau am wybodaeth"

"Dylech gyflogi rhagor o bobl ar y lefel isaf"

5. Crynodeb o'r holl faterion a godwyd

I grynhoi, roedd y prif feysydd a roddwyd gan ymatebwyr am lle y gallai fod lle i wella fel a ganlyn:

Cyngor sy'n canolbwyntio ar atebion	Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion, lle bo modd	6.6
Cyngor cymesur	Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am natur a graddfa'r asesiadau roedd eu hangen i gefnogi fy nghais cynllunio yn gymesur ag arwyddocâd effeithiau posibl y datblygiad a nodwyd	6.6
	Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi pryder am ddatblygiad arfaethedig, mae ei gyngor am sut mae mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn gymesur	6.6
Effaith y cyngor	Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llywio newidiadau i'm cynllun	6.6
	Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi fy helpu i wella canlyniadau fy natblygiad ar gyfer amgylchedd Cymru.	6.4

Yn ogystal â'r pynciau uchod, codwyd rhai materion yn y sylwadau o ran rhai o'r cwestiynau, sydd wedi'u crynhoi isod.

Sylwch oherwydd maint grŵp yr arolwg, dim ond un neu ddau o sylwadau a gafwyd am bob mater. Oherwydd hyn, mae'n anodd canfod a yw'r sylwadau hyn yn arwydd o faterion mwy arwyddocaol, neu a ydynt ond yn ddigwyddiadau arunig. Serch hynny, rydym wedi ystyried y materion hyn i gyd wrth ymateb.

Roedd y materion mwyaf arwyddocaol a godwyd yn ymwneud ag:

- Eglurder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, yn arbennig maint yr ymateb (sylwadau amryfal)
- E-byst sy'n mynd ar goll yn y system a/ ddim yn derbyn sylw (sylwadau amryfal)
- Cysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor, ac yn arbennig, ymatebwyr sydd am gael rhagor o staff lefel isaf a mynediad haws at staff

6. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r materion a godwyd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried yr holl adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r arolwg a bwriadwn wneud y canlynol:

- Er mwyn gwella eglurder ein cyngor, byddwn yn adolygu'r categorïau ymateb a ddefnyddiwn wrth ymateb. Yn y cyfnod ers cynnal yr arolwg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi gwneud newidiadau i'r ffordd mae'n strwythuro ei ymatebion, a ddylai helpu i esbonio pa agweddau ar ein cyngor sy'n ymwneud â chyngor cynllunio, a pha rai sy'n ymwneud â materion eraill.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal adolygiad o'r arweiniad sydd ar gael ar ei wefan a bydd yn ystyried a ellir gwella/ ehangu'r arweiniad hwn
- Rydym yn bwriadu ystywto'r broses ar gyfer ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy ddileu'r cyfrif e-bost cynllunio Cymru gyfan a chyfeirio ymgeiswyr at y Tîm Ardal briodol

Rydym hefyd yn cydnabod pryderon nifer fach o ymatebwyr am gymesuredd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a'r canfyddiad y dylai cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ganolbwyntio mwy ar ddod o hyd i atebion.

Hoffem egluro yn ein rôl fel cynghorydd mai ein dyletswydd yw tynnu sylw at bryderon am ddatblygiad, neu'r asesiadau a gynhelir i'w gefnogi. Mae cyngor manylach am sut mae ymdrin â'r pryderon hyn yn disgyn y tu allan i gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hoffem roi sicrwydd i ymatebwyr hefyd bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru arweiniad a gweithdrefnau cymeradwyo ar waith a ddylai helpu i sicrhau bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson ac yn gymesur. Os bydd y gweithdrefnau hyn yn methu, rydym yn argymhell i ymgeiswyr ddefnyddio gweithdrefn gwyno Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd ar gael yma: <https://naturalresources.wales/about-us/contact-us/making-a-complaint/?lang=cy>

Please DO NOT DELETE THIS SECTION BREAK



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru.